NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Alemtuzumab ar gyfer trin sglerosis ymledol gweithredol iawn sy'n atglafychol-ysbeidiol

23 Mai 2024

Mae alemtuzumab (Lemtrada) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer sglerosis ymledol gweithredol iawn atglafychol/ysbeidiol mewn oedolion sydd â'r canlynol:

- clefyd gweithredol iawn er gwaethaf cwrs llawn a digonol o driniaeth ag o leiaf un therapi sy'n addasu clefydau neu
- sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol difrifol sy'n esblygu'n gyflym a ddiffiniwyd gan 2 ail bwl neu fwy yn ystod y flwyddyn flaenorol a thystiolaeth MRI sylfaenol o weithgarwch yr afiechyd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0808 800 8000
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 01462 476700

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9499-1